Polisi Diogelu Data

Dyddiad cymeradwyo: Ebrill 2022	Cymeradwywyd gan: Sam Sullivan
Dyddiad adolygu: Mai 2024	Awdur: Suzanne Draper
Fersiwn 03	Diwygiwyd: Mai 2023 Diwygiwyd gan: Sam Sullivan

Mae'r Polisi hwn ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Mae Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru (Data **Cymru**) yn ymrwymedig i ddiogelu a pharchu preifatrwydd unigolion. Rydym wedi cofrestru fel Rheolydd Data gyda'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'n rhif cofrestru yw Z6554166.

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod y Data Personol a gasglwn yn cael ei brosesu mewn modd cywir a diogel, yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Bydd yn berthnasol i wybodaeth ni waeth ym mha ffordd caiff ei chasglu, ei defnyddio, ei chofnodi, ei storio a'i gwaredu, ac ni waeth a yw'n cael ei chadw mewn ffeiliau papur neu'n electronig.

Bydd yr holl staff sy'n gysylltiedig â chasglu, prosesu a datgelu Data Personol yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau drwy lynu wrth y canllawiau hyn.

Ein Grŵp Gwybodaeth Busnes (BIG) sy'n gyfrifol am faterion diogelu data o ddydd i ddydd, a'r Grŵp hwn fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl aelodau staff ac unigolion perthnasol yn cadw at y polisi hwn, ac am ddatblygu ac annog arferion da wrth drin gwybodaeth. Caiff unrhyw achos o dorri'r polisi hwn ei drin yn ddifrifol a gallai arwain at gamau disgyblu neu gosb busnes.

Beth yw Data Personol?

Data Personol yw unrhyw wybodaeth (gan gynnwys safbwyntiau a bwriadau) sy'n gysylltiedig â pherson adnabyddedig neu adnabyddadwy.

Diffinnir data personol fel data sy'n ymwneud ag unigolyn byw sy'n gallu cael ei adnabod o:

- Y data hwnnw
- Y data hwnnw a gwybodaeth arall (gan gynnwys unrhyw ddelweddau y mae'n bosibl adnabod yr unigolyn ohonynt) sydd ym meddiant, neu yn debygol o ddod i fewn i feddiant, y rheolydd data ac yn cynnwys mynegiant barn am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau'r rheolydd data, neu unrhyw berson arall mewn perthynas â'r unigolyn.

Mae data categori arbennig yn ddata personol sydd yn ôl GDPR yn fwy sensitif ac yn cynnwys gwybodaeth am:

- Darddiad hiliol neu ethnig
- Barn wleidyddol
- Crefydd neu gredoau eraill
- Aelodaeth undeb llafur
- Iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol
- Bywyd rhywiol
- Gwybodaeth fiometrig a genetig.

Cwmpas

Gelwir sefydliad sy'n prosesu Data Personol ac sy'n gwneud penderfyniadau am ei ddefnydd yn 'Rheolydd Data'. Mae Rheolydd Data'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion Diogelu Data fel y diffinnir yn y GDPR y DU.

Mae Data **Cymru** yn gweithredu fel y Rheolydd Data ar gyfer y Data Personol a gesglir **gennym ni.** Mae hyn yn cynnwys Data Personol am gyflogeion presennol a chyflogeion posibl yn ogystal â Data Personol am unigolion eraill a gasglwn yn rhan o'r gwasanaethau a ddarparwn.

Pan fyddwn yn prosesu Data Personol ar ran sefydliadau eraill, 'Prosesydd Data' ydyn ni. Y sefydliad sydd wedi ein contractio i ymgymryd â'r prosesu yw'r Rheolydd Data. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gweithredu'n unol â gofynion y Rheolydd Data ac ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir at unrhyw ddiben arall.

Mae rhai o'n gwefannau a'n systemau ar y we wedi'u cynllunio i ganiatáu i ddefnyddwyr lanlwytho a rhannu gwybodaeth ag eraill. Gallai hyn gynnwys Data Personol amdanyn nhw eu hunain neu am eraill. Yn yr achosion hyn, ni yw'r Rheolydd Data a dim ond fel y nodir yn y telerau ac amodau defnydd ar gyfer y system honno y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth.

Egwyddorion Diogelu Data

Mae'r GDPR y DU yn rhoi cyfrifoldeb ar bob Rheolydd Data i brosesu Data Personol yn unol â chwe egwyddor. Mae Data **Cymru** yn ymrwymedig i gynnal yr egwyddorion hyn bob amser.

1) Rhaid i Ddata Personol gael ei brosesu mewn modd teg a chyfreithlon sy'n dryloyw i unigolion

Dim ond pan fydd angen at y diben penodedig y bydd Data **Cymru** yn prosesu Data Personol.

Bydd Data **Cymru** yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod unigolion sy'n destun Data Personol (gwrthrychau data) yn cael eu hysbysu am:

- pwy yw'r Rheolydd Data;
- dibenion y prosesu;
- unrhyw achosion o ddatgelu i drydydd partïon a ragwelir ynghyd â'r rhesymau dros y datgelu; syniad am ba gyfnod y cedwir y data; ac
- unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol.

Caiff yr wybodaeth hon ei darparu, lle y bo'n bosibl, ar adeg y casglu drwy gyfrwng polisi preifatrwydd. Bydd y polisi preifatrwydd yn hygyrch, yn gryno, yn glir ac ar gael am ddim.

Pan fydd gofyn i ddefnyddiwr *roi caniatâd* i'r prosesu, byddwn yn sicrhau bod y gwrthrych data wedi rhoi caniatâd pendant. Ni chymerir caniatâd yn ganiataol yn sgil peidio ag ymateb i gyfathrebiad. Yn yr amgylchiadau hyn, os nad yw unigolyn

yn rhoi caniatâd i'r prosesu, ni fydd y prosesu'n digwydd.

2) **Rhaid i Ddata Personol gael ei gasglu at ddibenion penodedig, pendant a dilys a pheidio â chael ei brosesu ymhellach mewn modd nad yw'n gydnaws â'r dibenion hynny**

Bydd Data **Cymru** yn sicrhau mai'r rheswm dros gasglu'r data yn wreiddiol yw'r unig reswm dros brosesu'r data hwnnw, oni bai bod y diben newydd yn gydnaws â'r diben gwreiddiol neu os caiff yr unigolyn ei hysbysu (ac yn rhoi caniatâd lle y bo'n briodol) i unrhyw brosesu pellach cyn iddo ddigwydd.

3) **Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r diben neu'r dibenion prosesu**

Ni fydd Data **Cymru** yn ceisio casglu na storio unrhyw Ddata Personol nad yw'n gwbl angenrheidiol. Caiff ffurflenni ar gyfer casglu data eu drafftio bob amser gyda hyn mewn golwg. Os bydd unigolion yn rhoi unrhyw ddata amherthnasol, caiff ei waredu ar unwaith.

4) **Rhaid i Ddata Personol fod yn gywir a, lle bo angen, yn gyfoes; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod Data Personol sy'n anghywir, o ran y dibenion dros ei brosesu, yn cael ei ddileu neu ei unioni'n ddi-oed**

Bydd Data **Cymru** yn cymryd camau rhesymol i sicrhau cywirdeb unrhyw Ddata Personol a gawn a byddwn yn sicrhau bod ffynhonnell data o'r fath yn glir.

Cyfrifoldeb yr unigolion sy'n rhoi eu Data Personol yw sicrhau ei fod yn gywir, er y byddwn, lle y bo'n bosibl, yn rhoi camau diogelu yn eu lle i helpu sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir ac yn aros yn gywir.

Lle y bo'n bosibl, byddwn yn adolygu'r data a gedwir gennym yn rheolaidd.

Os bydd unigolyn yn ein hysbysu o unrhyw newid i'w amgylchiadau sy'n golygu bod angen diweddaru a/neu ddileu ei ddata, byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw heriau i gywirdeb gwybodaeth ac yn ystyried a oes angen diweddaru'r data a gedwir gennym.

Cyfrifoldeb Data **Cymru** yw sicrhau bod unrhyw hysbysiad mewn perthynas â'r newid yn cael ei nodi ac y gweithredir arno.

5) **Dim ond am y cyfnod angenrheidiol at ddibenion prosesu'r Data Personol y cedwir Data Personol mewn ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau data a dim hwy na hynny**

Mae Data **Cymru** yn ymrwymo i beidio â chadw Data Personol am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol.

Byddwn yn gwaredu unrhyw Ddata Personol mewn modd sy'n diogelu hawliau a phreifatrwydd yr unigolyn dan sylw (e.e. dileu mewn dull electronig diogel, rhwygo a gwaredu ffeiliau copi caled fel gwastraff cyfrinachol). Lle y bo'n

berthnasol, gellir cadw cofnod o'r cofnodion a ddilëwyd.

Mewn rhai achosion, gallai fod angen cadw'r data am gyfnodau hwy at ddibenion ystadegol neu ymchwil. Yn yr achosion hyn, byddwn yn sicrhau bod y camau technegol a sefydliadol priodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r data a'r unigolion dan sylw.

6) Rhaid i Ddata Personol gael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y Data Personol, gan gynnwys diogelu yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistrio neu ddifrod damweiniol, gan ddefnyddio camau technegol neu sefydliadol priodol

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw Ddata Personol maent yn gyfrifol amdano'n cael ei gadw'n ddiogel ac nad yw'n cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd partïon anawdurdodedig. Byddwn yn sicrhau bod pob math o Ddata Personol yn hygyrch i'r bobl hynny'n unig sy'n meddu ar reswm dilys dros ei ddefnyddio.

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i staff sy'n prosesu Data Personol 'oddi ar y safle', e.e. pan fyddant yn gweithio gartref, ac mewn amgylchiadau lle mae'n rhaid cymryd gofal ychwanegol mewn perthynas â diogelwch y data.

Yn ogystal â'r camau technegol a ddefnyddiwn i gadw'r data'n ddiogel, byddwn hefyd yn mabwysiadu'r camau sefydliadol canlynol, fel yr argymhellir yn yr GDPR y DU, er mwyn sicrhau llywodraethiant data sy'n cydymffurfio:

- Byddwn yn rhoi dull gweithredu 'Diogelu Data'n Ddiofyn' ar waith sy'n sicrhau bod ystyriaethau preifatrwydd craidd yn cael eu hymgorffori mewn trefniadau rheoli prosiectau sy'n bodoli eisoes. O ganlyniad, eir i'r afael â materion preifatrwydd a diogelu data ar gychwyn prosiect a chaiff hyn ei fonitro drwy gydol yr amser.
- Pan fydd angen, h.y. wrth ddefnyddio technolegau newydd, neu wrth ymgymryd â gwaith prosesu risg uchel, byddwn yn ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA).
- Mae gennym gofnod canolog o'r Data Personol a brosesir gennym. Caiff hwn ei gynnal wrth i brosiectau newydd ddod i'r amlwg.
- Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gennym y staff a'r sgiliau i ateb ein gofynion o dan y GDPR y DU. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rheoliadau a'r hyn maent yn ei olygu iddyn nhw.
- All staff with email accounts are required to complete mandatory e-learning training modules annually. Managers are responsible for ensuring their staff complete training within agreed timeframes. Bydd pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant a bydd gofyn iddynt ymgyfarwyddo â'r polisi hwn.

Hawliau'r 'Gwrthrych Data'

Mae'r GDPR y DU hefyd yn darparu **8 hawl** ar gyfer y 'gwrthrych data' – sef yr unigolyn y mae ei ddata'n cael ei brosesu. Mae Data **Cymru** yn ymrwymedig i sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu diogelu a'u parchu.

1. Yr hawl i gael gwybod

Bydd Data **Cymru** yn darparu gwybodaeth gryno, dryloyw, ddealladwy a hawdd ei chyrchu i unigolion am brosesu Data Personol drwy gyfrwng Polisi Preifatrwydd.

2. Yr hawl i gael mynediad

Bydd Data **Cymru** yn darparu mynediad i unigolion i'w Data Personol ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol sy'n ofynnol ganddynt.

Lle y bo'n bosibl byddwn yn caniatáu i wrthrychau data gyrchu Data Personol sydd wedi'i gasglu gennym ar-lein. Lle nad yw hyn yn bosibl neu'n briodol, gall unigolion gyflwyno Cais Mynediad Gwrthrychau (SAR). Bydd Ceisiadau Mynediad Gwrthrychau am ddim a chânt eu prosesu o fewn mis o'u derbyn.

Cadwn yr hawl i godi tâl os a ble mae'r gyfraith yn caniatáu hyn. Os bydd ceisiadau'n gymhleth neu'n niferus mae hawl gennym i ymestyn y cyfnod cydymffurfio fel y caniateir gan y gyfraith.

Byddwn yn gwirio pwy yw'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais gan ddefnyddio dulliau rhesymol.

3. Yr hawl i gamau unioni

Mae Data **Cymru** yn ymrwymedig i unioni Data Personol os yw'n anghywir neu'n anghyflawn a hysbysu unrhyw drydydd partïon o hyn.

Lle y bo'n bosibl byddwn yn caniatáu i'r gwrthrych data addasu/unioni'r Data Personol a gasglwyd gennym ar-lein. Lle nad yw hyn yn bosibl neu'n briodol, gall unigolion gysylltu â ni i ofyn am gamau unioni.

Byddwn yn ymateb i gais am gamau unioni o fewn mis o dderbyn y cais. Os tybir bod y cais am gamau unioni'n gymhleth ymatebir i hyn o fewn deufis. Byddwn yn sicrhau bod yr unigolyn yn cael gwybod am unrhyw estyniad i'r amserlen o fewn y mis cyntaf.

Os na allwn gymryd camau i ymateb i gais am gamau unioni byddwn yn darparu esboniad ysgrifenedig o hyn. Yna bydd gan yr unigolyn yr hawl i gwyno.

4. Hawl i ddileu

Bydd Data **Cymru** yn ystyried ceisiadau unigol am ddileu neu waredu Data Personol lle nad oes rheswm cymhellol dros barhau i'w brosesu. Byddwn yn sicrhau bod yr unigolyn yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein penderfyniad ac, os na allwn gydymffurfio â'r cais, byddwn yn sicrhau eu bod

yn cael gwybod o fewn mis. Yna bydd gan yr unigolyn yr hawl i gwyno.

Byddwn yn hysbysu trydydd partïon perthnasol ynghylch dileu Data Personol, oni bai
bod hyn yn amhosibl neu'n golygu mynd i ymdrech anghymesur.

5. Yr hawl i gyfyngu prosesu

Bydd Data **Cymru** yn sicrhau bod prosesu data'n cael ei gyfyngu mewn unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol:

- lle mae unigolyn yn amau cywirdeb Data Personol hyd nes i'r cywirdeb gael ei ddilysu;
- lle mae unigolyn wedi gwrthwynebu'r prosesu ac rydym yn ystyried a yw ein 'buddiannau dilys' yn drech na'u rhai nhw;
- pan fydd y prosesu'n anghyfreithlon; neu
- os nad oes angen y Data Personol arnon ni bellach ond mae ei angen ar yr unigolyn am reswm cyfreithiol.

Os caiff prosesu data ei gyfyngu, byddwn yn hysbysu unrhyw drydydd partïon perthnasol.

6. Yr hawl i gludadwyedd data

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i unigolion gael ac ailddefnyddio'u Data Personol at eu dibenion eu hunain ar draws gwahanol wasanaethau. Mae'n berthnasol i ddata a ddarperir i Reolydd Data sydd wedi'i seilio naill ai ar ganiatâd neu at ddibenion perfformiad contract lle caiff y prosesu ei gyflawni drwy ddulliau awtomataidd.

Lle y bo'n bosibl, byddwn yn darparu'r Data Personol ar ffurf strwythuredig a gaiff ei defnyddio'n gyffredin ac mae peiriant yn gallu ei darllen. Bydd hyn yn caniatáu i'r unigolyn ei symud, ei gopïo neu ei drosglwyddo'n hawdd o'r naill amgylchedd TG i'r llall mewn modd diogel, heb rwystro'i ddefnyddiadwyedd.

Byddwn yn cydymffurfio â cheisiadau unigol am gludadwyedd data am ddim ac o fewn mis o dderbyn y cais. Os yw'r cais yn gymhleth neu'n niferus gellid ymestyn hyn i ddeufis. Lle bydd hyn yn digwydd, byddwn yn hysbysu'r unigolyn o'r oedi o fewn y mis cyntaf.

7. Yr hawl i wrthwynebu

Mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu tri math penodol o weithgarwch:

i. prosesu ar sail buddiannau dilys neu gyflawni tasg er budd y cyhoedd/wrth gyflawni awdurdod swyddogol (gan gynnwys proffilio);
ii. marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio); a
iii. phrosesu at ddibenion ymchwil ac ystadegau

gwyddonol/hanesyddol.

Bydd Data **Cymru** yn cydymffurfio â hawl unigolion i wrthwynebu ac yn rhoi'r gorau i brosesu Data Personol oni bai bod seiliau dilys cymhellol dros brosesu neu os yw'r prosesu'n ymwneud â hawliad cyfreithiol.

8. Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio

Ni fydd Data **Cymru** yn defnyddio dulliau gwneud penderfyniadau awtomataidd nac yn proffilio unrhyw unigolion.

Cwynion

Os ydych o'r farn bod Data **Cymru** wedi camddefnyddio'ch data, mae gennych hawl i gwyno. Gallwch gysylltu â'n Pennaeth Ystadegau ac Ymchwil (sam.sullivan@data.cymru / 029 2090 9581) ac ymdrechwn i ddatrys y mater cyn gynted â phosib er mwyn osgoi unrhyw achos pellach o'i gamddefnyddio. Gweler ein Polisi Cwynion am wybodaeth bellach.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno i'n Swyddog Diogelu Data:

Swyddog Diogelu Data
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Neuadd y Sir
Glanfa Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

diogeludata@caerdydd.gov.uk

Mae gennych hawl hefyd i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

www.ico.org.uk

The Information Commissioner's
Office Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffoniwch: **0303 123 1113** – mae'r llinell gymorth ar agor rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ebost: casework@ico.org.uk

Datgelu Angenrheidiol yn ôl y gyfraith

Er y gwnawn bob ymdrech i sicrhau preifatrwydd defnyddwyr, mae'n bosibl bydd angen i ni ddatgelu Data Personol pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith lle mae gennym gred ddidwyll bod angen cymryd camau o'r fath i gydymffurfio â gweithrediadau barnwrol, gorchymyn llys neu broses gyfreithiol sydd ar y gweill.

Digwyddiadau Diogelu Data

Digwyddiad Diogelu Data yw sefyllfa lle mae Data **Cymru** wedi colli rheolaeth dros brosesu data sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol a allai arwain at drallod/niwed i'r unigolion (Gwrthrychau Data). Mae ein Polisi Digwyddiadau Diogelu Data esbonio sut byddwn yn rheoli ac yn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol gan ein Pennaeth Ystadegau ac Ymchwil.

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r polisi hwn, cysylltwch â ni yn Data **Cymru**, Un Rhodfa'r Gamlas, 4ydd Llawr, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF neu drwy e-bostio ymholiadau@data.cymru.